# PWYLLGOR CYNLLUNIO

**(O BELL TRWY TEAMS)**

| **Aelodau'n bresennol:** | **Dydd Mawrth, 15 Rhagfyr 2020** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Aelod S.Paddison** |
| **Is-gadeirydd:** | **Aelod S.Pursey** |
| **Cynghorydd**: | R.Davies, S.K.Hunt, A.N.Woolcock, C.Williams a/ac S.Renkes |
| **Aelod CDU/CDLI:** | Aelod A.Wingrave |
| **Swyddogion yn bresennol:** | S.Ball, C.Morris, R.MacGregor, J.Griffiths a/ac J.Woodman-Ralph |

---

1. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Gwnaed datganiad o fudd ar ddechrau'r cyfarfod gan yr aelodau canlynol:

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd A R Wookcock | Parthed: Eitemau 4 a 5 ar yr Agenda, Ceisiadau Cynllunio P2018/0512 a P2018/0511 gan ei fod yn Aelod o Bwyllgor Cyswllt Safle Pwllfa Watkin. Nid oedd o'r farn bod ei fudd yn rhagfarnol felly roedd yn gallu pleidleisio a siarad. |
| Y Cynghorydd L Purcell | Parthed: Eitemau 4 a 5 ar yr Agenda, Ceisiadau Cynllunio P2018/0512 a P2018/0511 gan ei bod yn Aelod o Bwyllgor Cyswllt Safle Pwllfa Watkin. Nid yw'n Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio felly nid oes ganddi hawl i bleidleisio ond anerchodd y Pwyllgor fel Aelod Ward. |
| Y Cynghorydd S Reynolds | Parthed: Eitemau 4 a 5 ar yr Agenda, Ceisiadau Cynllunio P2018/0512 a P2018/0511 gan ei bod yn Aelod o |

Bwyllgor Cyswllt Safle Pwllfa Watkin. Nid yw'n Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio felly nid oes ganddi hawl i bleidleisio ond anerchodd y Pwyllgor fel Aelod Ward.

## 2. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 10 Tachwedd 2020 fel cofnod cywir.

## 3. GWNEUD CAIS AM YMWELIAD(AU) SAFLE GAN Y CEISIADAU A GYFLWYNWYD

Peidio â chynnal unrhyw ymweliadau safle mewn perthynas â'r ceisiadau a oedd gerbron i'r Pwyllgor heddiw.

## 4. TAFLEN DDIWYGIADAU

Nodyn: Dosbarthwyd taflen ddiwygio mewn perthynas â chais rhif P2018/0512 a P2018/0511 cyn y cyfarfod, yr oedd y Cadeirydd wedi rhoi digon o amser i'r aelodau ei darllen, mewn perthynas ag eitem y cais ar yr agenda a gyhoeddwyd. Roedd y Cadeirydd wedi caniatáu iddi gael ei dosbarthu ar frys a'i hystyried yng nghyfarfod heddiw oherwydd y rhesymau a'r sefyllfa benodol nad oedd am ohirio unrhyw geisiadau ac i sicrhau bod aelodau'n ystyried yr holl wybodaeth berthnasol ychwanegol cyn gwneud unrhyw benderfyniad yn ystod y cyfarfod.

## 5. CAIS RHIF. P2018/0512 – CANOLFAN AILGYLCHU 890, PWLLFA WATKIN

Gwnaed sylwadau gan swyddogion i'r Pwyllgor Cynllunio ar y cais hwn (DILEU amodau cynllunio 1 (cychwyn) 8, 12, 17, 18, 19, 37, 42, 49, 54, 61 (wedi'i ddyblygu gan amodau eraill) 21 (symud i'r adran nodiadau) 24, 32, 36, 44, 45, 46, 53, 59 (yn ymwneud â gwaith gofynnol sydd eisoes wedi'i gwblhau) 34 a 39 (wedi'i disodli gan ganiatâd dilynol) 38 (mae tomen 891 wedi'i adfer). AMRYWIO amodau cynllunio 2 (ymestyn oes weithredol y safle tan 2023, ac yna blwyddyn ar gyfer gwaith adfer) 3, 5, 7, 22, 23, 28, 35, 41, 43, 48, 50, 51, 55, 60 (diweddaru amodau i ganiatáu ar gyfer

cynlluniau/gwybodaeth wedi'u diweddaru a gyflwynwyd) sydd ynghlwm wrth ganiatâd cynllunio P2002/1016, yn Fferm Pwllfa Watkin, Ffordd Gyswllt Pontardawe â Heol y Baran, Pontardawe SA8 4RX) fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Roedd aelodau'r ward leol yn bresennol i roi eu sylwadau, yn ogystal ag asiant i'r ymgeisydd, a Swyddog Cynllunio o Gyngor Sir Gâr.

Gohiriwyd y cyfarfod er mwyn caniatáu i'r Aelodau ystyried eu rheswm dros wrthod ac ailymgynnull am 12.50pm.

**PENDERFYNWYD:** GWRTHOD y cais, yn groes i argymhellion Swyddogion, am y rhesymau canlynol:

Er Polisi CDLl SP19, a'r gwagleoedd sydd ar gael ar hyn o bryd mewn safleoedd tirlenwi yn Rhanbarth De Cymru, gan roi sylw i Erthygl 13 o Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff ddiwygiedig yr UE (2008), ystyrir bod gweithrediad y safle wedi cael effaith andwyol sylweddol ar iechyd a lles cymunedau o amgylch y safle (gan gynnwys y rhai sydd gryn bellter o'r safle) oherwydd niwsans arogleuon. Yn unol â hynny, ystyrir na ellir parhau â gweithrediadau tirlenwi ar y safle hwn na'u rheoli i'r graddau gofynnol er mwyn sicrhau na fydd unrhyw effeithiau andwyol o'r fath yn digwydd yn y dyfodol. Yn unol â hynny, ystyrir mai'r unig ffordd o atal problemau arogleuon sy'n deillio o'r safle penodol hwn yw stopio gweithrediadau tirlenwi. Felly, ystyrir bod y cynnig yn groes i Bolisïau SP2, SP16, EN8 y Cynllun Datblygu Lleol.

6. **<u>CAIS RHIF. P2018/0511 - TOMEN 871, PWLLFA WATKIN</u>**

Rhoddodd swyddogion gyflwyniad i'r Pwyllgor Cynllunio ar y cais hwn (Amrywio Amod 1 (i ymestyn oes weithredol y safle tan 2025, ac yna blwyddyn ar gyfer gwaith adfer) 2, 5, 6, 8, 15, 19 a 21 (i adlewyrchu'r cynlluniau a'r datganiadau diweddaredig a gyflwynwyd) sydd ynghlwm wrth ganiatâd cynllunio P2014/0693 ym Nhomen Sbwriel Pwllfa Watkin (Tomen 871), Ffordd Gyswllt Pontardawe i Heol y

Baran, Pontardawe SA8 4RX) fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Roedd aelodau'r ward leol yn bresennol i roi eu sylwadau, yn ogystal ag asiant i'r ymgeisydd, a Swyddog Cynllunio o Gyngor Sir Gaerfyrddin.

**PENDERFYNWYD:** Yn unol ag argymhellion Swyddogion, ar yr amod bod Gweinidogion Cymru yn tynnu eu Cyfarwyddyd Daliad yn ôl o dan Erthygl 18 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Sir (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 ac yn amodol ar yr a nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, Rhif y Cais, gymeradwyo P2018/0511.

## 7. DIWYGIADAU ARFAETHEDIG I DREFNIADAU DIRPRWYEDIG CYNLLUNIO

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo'r newidiadau i'r cynllun dirprwyaethau presennol, mewn perthynas â threfniadau dirprwyedig Cynllunio, fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad a ddosbarthwyd.

## 8. APELAU A BENDERFYNWYD 2020

Derbyniodd yr Aelodau restr o Benderfyniadau Apêl a benderfynwyd yn 2020, fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd. Roedd yr Aelodau wedi cael copïau o'r penderfyniadau hyn drwy e-bost, ond nid oeddent wedi cael eu hadrodd yn y Pwyllgor Cynllunio eto.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi.

## 9. PENDERFYNIADAU DIRPRWYEDIG - 28 IONAWR I 7 RHAGFYR 2020 (I DDILYN)

Derbyniodd aelodau restr o Geisiadau Cynllunio y penderfynwyd arnynt rhwng 28 Ionawr a 7 Rhagfyr 2020, fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi.

# CADEIRYDD